O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 2633 (Cy. 285)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Cylchfan Glangwili i Dderwen-fawr, Sir Gaerfyrddin) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2012

Gwnaed	*17 Hydref 2012*
Yn dod i rym	*21 Hydref 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Llandeilo – Caerfyrddin (yr A40) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a chyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**) a phob pŵer galluogi arall (**2**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 21 Hydref 2012, a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Cylchfan Glangwili i Dderwen-fawr, Sir Gaerfyrddin) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2012.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y

(**1**) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

(**2**) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 00.01 o'r gloch ar 21 Hydref 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro yn cael eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw'r darnau hynny o gefnffordd yr A40 yn Sir Gaerfyrddin a ddisgrifir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiadau a Chyfyngiadau

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2, ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 4 yn weithredol.

6. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3.

Atal

7. Mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffyrdd (Terfyn Cyflymder 40 m.y.a.) (Rhif 1) (Cymru) 1967(**1**) drwy hyn wedi eu hatal i'r graddau y maent yn gymwys i'r darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 4 yn weithredol.

(**1**) O.S. 1967/1353.

Cymhwyso

8. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5, 6 a 7 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

9. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 17 Hydref 2012

R Morgan
R MORGAN
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

YR ATODLENNI

ATODLEN 1

TERFYN CYFLYMDER 40 MYA

i) Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 200 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt Cylchfan Glangwili hyd at bwynt 73 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt Cylchfan Abergwili.

ii) Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 71 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cylchfan Abergwili hyd at bwynt 205 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt Cyffordd Heol yr Orsaf, Nantgaredig â'r B4310.

iii) Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 175 o fetrau i'r gorllewin o'r gyffordd â'r ffordd Dosbarth 3 i Abergorlech hyd at bwynt 580 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt y gyffordd â'r ffordd ddiddosbarth i Langathen.

ATODLEN 2

TERFYN CYFLYMDER 10 MYA

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 200 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt Cylchfan Glangwili hyd at bwynt 580 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt y gyffordd â'r ffordd ddiddosbarth i Langathen.

ATODLEN 3

GWAHARDD CERBYDAU

i) Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 50 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt Cylchfan Llangynnwr hyd at ei chyffordd â phrif gerbytffordd gylchredol Cylchfan Abergwili, gan gynnwys prif gerbytffordd gylchredol Cylchfan Glangwili.

ii) Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 42 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cylchfan Glangwili hyd at bwynt 30 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cylchfan Abergwili.

iii) Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 10 metr i'r dwyrain o ganolbwynt Sgwâr Nantgaredig

ar y B4310 hyd at bwynt 431 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd Dosbarth 3 i Abergorlech.

iv) Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 10 metr i'r gorllewin o ganolbwynt Sgwâr Nantgaredig ar y B4310 hyd at bwynt 5 metr i'r dwyrain o ganolbwynt y gyffordd ddwyreiniol i Felin-wen.